# SGILIAU A MENTORA
## Mawrth – Mai 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Hyfforddiant ■


Gweler dadansoddiad o'r nifer o gyrsiau a gwblhawyd fesul categori hyfforddiant ar gyfer y cyfnod hwn isod:

| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u 'Cymeradwyo' |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 59 |
| Categori 2 – Technegol | 45 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 70 |
| CYFANSWM | 174 |

Yng Nghategori 1 – Gwella'r Busnes, y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd Cynllunio Busnes a Marchnata eich Busnes. Y cyrsiau gyda'r mwyafrif o geisiadau yng Nghategori 2 – Hyfforddiant Technegol oedd Rheoli Cnofilod ar Ffermydd, Cymorth Cyntaf yn y Gweithle a DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI). O fewn Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer roedd y rhan fwyaf o'r cyrsiau a gwblhawyd yn ymwneud â phlaladdwyr.

### Ystadegau Ymgeisio

Mae'r tabl isod yn dangos y darparwyr hyfforddiant mwyaf gweithgar o fewn y cyfnod hwn, gan nodi'r nifer o gyrsiau a gwblhawyd.




Mae'r tabl isod yn dangos y nifer y cyrsiau a gwblhawyd fesul sir.




### E-ddysgu ■

Mae cyfanswm o **52** cwrs e-ddysgu bellach ar gael ar wefan BOSS a chafodd **72** cwrs eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn. Y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | 14 |
| Cyllid Fferm | 7 |
| Goroesiad Perchyll – Maeth yr Hwch | 6 |
| Rheoli Brwyn | 4 |

### CDP

Ers dechrau'r rhaglen mae cyfanswm o **3590** cleient wedi cwblhau Cynllun Datblygu Personol. Crëwyd **50** CDP newydd yn ystod y cyfnod hwn.



### Agrisgôp ■


**40** GRŴP GWEITHREDOL gyda **372** AELOD yn mynychu cyfanswm o **57** CYFARFOD


### Pynciau trafod:




### Academi Amaeth ■


36 aelod wedi'u dewis ar gyfer Dosbarth 2018



## Map o holl ymgeiswyr 2018

- Busnes ac Arloesedd
- Arweinyddiaeth Wledig
- Rhaglen yr Ifanc



## Cyfnewidfa Rheolaeth

### Taith Cyfnewidfa Rheolaeth John Yeomans, Mai 2018

**Nod:** Ehangu ei wybodaeth am reoli glaswelltir
**Gwlad:** Y Ffindir
**Partneriaid cyfnewid:** Anu Ella a Jarkko Stoberg

Yn ystod y chwarter hwn cwblhaodd John Yeomans ei Gyfnewidfa Rheolaeth. Dechreuodd y gyfnewidfa gydag Anu a Jarkko yn ymweld â Chymru. Mynychodd y ddau Ddiwrnod Tir Glas Brenhinol Cymru yn ogystal â siarad mewn rhai o ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio.

Ar ddiwedd mis Mai teithiodd John i'r Ffindir lle bu'n ymweld â nifer o ffermwyr ac arbenigwyr glaswelltir gydag Anu.

Ar y diwrnod cyntaf cawsant gwrdd â grŵp bîff a defaid Ffinnaidd a oedd yn edrych ar ddwyster porfa a strwythur y pridd. Cafwyd trafodaeth ar sychder a dyddiadau torri silwair. Aethant ymlaen i ymweld ag un o ffermwyr tir glas gorau'r wlad, Pettru Uusitalo, a oedd yn defnyddio system odro robotig. Roedd y fferm yn cynhyrchu tua 13,000kg o silwair mewn tymor tyfu pum mis.


Yn ystod y dyddiau nesaf bûm yn ymweld â Timo Suni, tyfwr glaswellt rhagorol a bridiwr rhai o'r gwartheg Ayrshire â'r cynnyrch oes gorau yn y Ffindir. Cafwyd trafodaeth ar broblemau cywasgu a difrod rhew yng nghwmni arbenigwr priddoedd. Cafodd John hefyd gyfle i ymweld â fferm organig a oedd wedi bod yn defnyddio system bori cylchdro ers 2012. Roeddent hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar anian a strwythur y fuwch. Yn dilyn hyn cafodd John ymweld â busnes teuluol a oedd yn rhedeg uned profi teirw aml frid ar y cyd gyda lladd-dy lleol. Ar y diwrnod olaf bu John yn ymweld Terho Hosike, ffermwr a oedd wedi symud o ffermio tir âr a llaeth i ffermio tir âr ac wrthi'n adeiladu buches sugno ar raddfa eang. Defnyddia Terho system bori cylchdro hefyd er mwyn cynyddu'r fuches ymhellach. Cafodd John gyfle i gwrdd â thîm o ymgynghorwyr o Pro Agria yn ystod ei amser yn y Ffindir hefyd.

Bu John yn rhoi diweddariadau ar Facebook trwy gydol ei Gyfnewidfa Rheolaeth a chafodd ei negeseuon dipyn o sylw gan ffermwyr eraill.

Bydd adroddiad John ar gael ar y wefan yng nghanol mis Mehefin







John Yeomans
31 Mai am 23:20

Final Farming Connect Farm Management Exchange visit of the day to a multi breed bull testing station. Johanna Jahkola's bulls are further reared here. Family owned and linked with a local abattoir, bulls not achieving the required criteria are finished. Top bulls are sold two Aprils later for breeding. Popular bedding source is dried peat. Light and airy sheds. Einir Owain

+9

Hoffi Sylw Rhannu

Chi, Ilan Jones, Owain Pugh a 28 arall

2 Shares

Steven Sandison Very interesting John, Do you have photos of the peat drying process?
Hoffi · Ateb · 4d

Steven Sandison replied · 7 Replies

## Mentora

**136** MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**27** MENTAI NEWYDD

**49%** O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI

### Astudiaeth achos:

Mae ffermwr ifanc wedi osgoi peryglon posib a chamgymeriadau costus ers i'r fferm bîff a defaid deuluol gael ei droi'n fferm laeth gydag arweiniad gan fentor Cyswllt Ffermio. Mae Richard yn ffermio gyda'i rieni, Terry a Jane, yn eu busnes fferm organig yng Nghilcert Uchaf ger Tregaron.

Roedd gan Richard rhywfaint o brofiad godro wedi iddo dreulio tri mis yn gweithio ar fferm laeth, ond fel newydd ddyfodiad, roedd yn awyddus i gymryd mantais o'r gefnogaeth sydd ar gael trwy Raglen Fentora Cyswllt Ffermio. Mentor Richard oedd Eurig Jenkins, ffermwr llaeth profiadol sydd â fferm laeth llai na phedair milltir o Gilcert Uchaf. Mae Eurig wedi arwain Richard mewn sawl ffordd ers hynny, o gynghori ar leoli traciau gwartheg i strategaethau pori. "Mae cyngor Eurig yn bendant wedi arbed amser ac arian i ni," dywedodd Richard sy'n 21 oed.Mae'r ddau'n defnyddio systemau lloia mewn bloc ac er mai buches lloia'n yr hydref sydd gan Richard ac Eurig yn gynhyrchwr llaeth y gwanwyn, mae'r egwyddorion yn debyg.

Dywedodd Richard fod hyn wedi bod yn fuddiol. "Roedd gennym ni ein syniadau ein hunain, ond roedd Eurig wedi arbrofi rhai o'r rheiny ar ei system ei hun a doedden nhw ddim wedi gweithio iddo, felly, diolch i'w gyngor, doedd dim angen i ni wneud yr un camgymeriadau," dywedodd.

Mae Eurig wedi treulio llawer o amser gyda Richard ar fferm Cilcert Uchaf ac wedi rhoi arweiniad iddo ar bopeth, o leoli traciau gwartheg a diogelu rhag clefydau i brotocol brechu ac ehangu'r fuches.

Cliciwch yma i ddysgu mwy am brofiad mentora Richard.

### Mentoriaid Newydd wedi'u Penodi

Mae 17 o fentoriaid newydd wedi cael eu penodid

- Alan Parry Jones – Godro defiad
- Andy Menzies – Cig gafr
- Carys Edwards – Cadw Gwenyn
- Chris Hughes – Iechyd a Diogelwch (Coetir)
- Gareth Davies – Olyniaeth
- Delyth Parry – Datblygu busnes a chyllid
- Ioan Roberts – Gwartheg brodol
- Glyn Davies – Iechyd a Diogelwch
- Illtud Dunsford – Moch a Charcutier
- Lilwen Joynson – Datblygiad personol
- Brian Rees – Iechyd a Diogelwch
- Lowri Rees-Roberts – Iechyd a Diogelwch
- Malcolm Thomas – Magu tyrcwn
- Mark Davies – Mentrau ar y Cyd, Dofednod ac Ynni Adnewyddadwy
- John Davies – Magu lloi, Pori cylchdro a Defnyddio EID
- Keri Davies – Arallgyfeirio, Llety Gwyliau ac Ynni Adnewyddadwy
- Rhys Edwards – Defaid, EID, Arallgyfeirio ac Ynni Adnewyddadwy

Bydd y mentoriaid ar gael i'w dewis ar wefan Cyswllt Ffermio o ganol fis Mehefin. Cliciwch yma i weld y Cyfeiriadur Mentoriaid.

## Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

### Facebook 27/04/18

"Rhowch gynnig arni, mae yna wastad rhywbeth allwch chi ei ddysgu gan rywun arall. Byddai wedi bod yn fwy o frwydr heb gyngor Eurig. Er bod y wybodaeth ar gael yn rhywle, doedd dim rhaid i mi fynd i chwilio amdano. Roeddwn i'n gallu cael y wybodaeth roeddwn ei angen yn syth ac yn uniongyrchol." Richard Downes am Wasanaeth Mentora CFf.

Pobl a Gyrhaeddwyd – **5,182**
Ymatebion, sylwadau a rhannu – **443**

### Facebook 08/05/18

Cynllunio ar gyfer y dyfodol... cyflawni eich nodau personol

Ydych chi eisiau gwneud cais am gymhorthdal ariannol i gwblhau cwrs byr, achrededig? Mae'n rhaid gwneud Cynllun Datblygu Personol cyn i chi allu cyflwyno cais. Beth am fynychu Digwyddiad PDP i'ch helpu i'w gwblhau?

Pobl a Gyrhaeddwyd – **2,450**
Ymatebion, sylwadau a rhannu – **9**